Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cyflawni gan Lywodraeth Cymru
## Papur briffio

Gorffennaf 2025



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

X: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cyflawni gan Lywodraeth Cymru
## Papur briffio

Gorffennaf 2024

**Awduron:**

Ymchwil y Senedd

Mae'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog yn cynnal sesiwn ar 11 Gorffennaf 2025 gydag Eluned Morgan AS, y Prif Weinidog, i graffu ar gyflawniad ei blaenoriaethau a'r Rhaglen Lywodraethu, wrth i ddiwedd ei blwyddyn gyntaf yn y swydd agosáu.

Mae'r briff hwn yn nodi gwybodaeth gefndir berthnasol a rhai o'r materion allweddol y gallai'r Pwyllgor eu trafod.

# Contents

**1. Cyflwyniad ........ 1**

**2. Blaenoriaethau'r Prif Weinidog ........ 1**

Cyllid ........ 2

**3. Y Rhaglen Lywodraethu ........ 2**

Adroddiadau Blynyddol Llywodraeth Cymru ........ 3

Cyfres Ymchwil y Senedd, Medi 2023 ........ 4

**4. Sesiynau blaenorol y Pwyllgor a phwyslais y Prif Weinidog ar 'gyflawni' ........ 4**

**5. Y berthynas rhwng y pedair blaenoriaeth a'r Rhaglen Lywodraethu ........ 5**

**6. 'Iechyd da – Cymru Iachach' ........ 6**

Torri amseroedd aros y GIG, gan gynnwys ar gyfer iechyd meddwl ........ 6

Amseroedd aros cyfredol ........ 7

Iechyd meddwl ........ 8

Gwella mynediad at ofal cymdeithasol ........ 8

Gofalwyr ........ 9

Y gweithlu ........ 9

Data gofal cymdeithasol ........ 10

Gwella gwasanaethau iechyd menywod ........ 10

**7. Swyddi gwyrdd a thwf ........ 11**

Creu swyddi gwyrdd sy'n mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac yn adfer natur, gan hefyd sicrhau bod teuluoedd ar eu hennill ........ 12

Cyflymu penderfyniadau cynllunio i dyfu economi Cymru ........ 14

Sgiliau gwyrdd ........ 15

**8. Cyfle i bob teulu ........ 16**

Hybu safonau mewn ysgolion a cholegau ........ 16

Diwygiadau mawr i fyd Addysg ........ 17

Heriau sy'n wynebu addysg ........ 18

Arsylwadau Estyn ........ 18

Canlyniadau addysgol ........ 19

Darparu mwy o dai rhent cymdeithasol ........ 21

**9. Cysylltu cymunedau ........ 22**

Trawsnewid ein rheilffyrdd ........ 22

Perfformiad Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru (Rheilffyrdd TrC) ........ 22

Buddsoddiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig mewn seilwaith rheilffyrdd 23

Darparu rhwydwaith bysiau gwell ........ 24

Trwsio ein ffyrdd ........ 25

**10. Rhyngweithio â phwyllgorau ...... 26**

Ymateb i argymhellion ...... 26

Edrych ymlaen at y Seithfed Senedd (Mai 2026 ymlaen) ...... 28

**11. Sut i ddilyn neu adolygu cyfarfod y Pwyllgor Craffu ar y Prif Weinidog ...... 29**

# 1. Cyflwyniad

Ar **11 Gorffennaf 2025,** bydd y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog yn craffu ar waith y Prif Weinidog, Eluned Morgan AS, o ran cyflawni ei blaenoriaethau a'r Rhaglen Lywodraethu, wrth i ddiwedd ei blwyddyn gyntaf yn y swydd agosáu.

Mae'r briff hwn yn nodi gwybodaeth gefndir berthnasol a rhai o'r materion allweddol y gallai'r Pwyllgor eu trafod.

Mae dadl dan arweiniad Llywodraeth Cymru ar Gyflawni Blaenoriaethau a Rhaglen Ddeddfwriaethol y Llywodraeth **wedi ei threfnu ar gyfer y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 15 Gorffennaf.** Mae'r ddadl hon fel arfer yn ymwneud â'r **adroddiad blynyddol ar y Rhaglen Lywodraethu,** a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru mewn blynyddoedd blaenorol tua wythnos cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn.

Oherwydd yr amserlen hon, ni fu'n bosibl adlewyrchu cynnwys yr adroddiad blynyddol yn y papur briffio hwn.

# 2. Blaenoriaethau'r Prif Weinidog

Daeth Eluned Morgan AS yn **Brif Weinidog Cymru ar 6 Awst 2024.** Yn wahanol i'w rhagflaenydd, Vaughan Gething AS, a benodwyd yn dilyn gornest arweinyddiaeth Llafur Cymru, nid oedd gan Eluned Morgan faniffesto. Fe wnaeth hi **ddatganiad i'r Senedd** yn dilyn ei henwebiad, gan ddweud:

> Dwi'n gobeithio cael fy niffinio gan fy ymrwymiad diflino i bobl Cymru, gan fy mlynyddoedd o wasanaeth cyhoeddus, a fy ymroddiad i greu cenedl decach, wyrddach a mwy llewyrchus i ni i gyd, arweinydd sy'n canolbwyntio ar gyflawni ac sy'n uchelgeisiol ar gyfer ein cenedl, arweinydd sy'n cael ei gyrru gan ymdeimlad o wasanaeth a pharch tuag at y bobl dwi'n eu gwasanaethu.

Fe wnaeth y Prif Weinidog **ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 17 Medi 2024** ar flaenoriaethau'r Llywodraeth. Dywedodd y bydd y Llywodraeth "yn bwrw ymlaen trwy weddill tymor y Senedd hon i ysgogi cynnydd mewn pedwar maes allweddol". Mae'r pedwar maes hyn, fel y nodir yn y datganiad ac mewn **datganiad i'r cyfryngau** a gyhoeddwyd yr un diwrnod, wedi eu hamlinellu isod:

- **'Iechyd da' – Cymru Iachach:** Torri amseroedd aros y GIG gan gynnwys ar gyfer iechyd meddwl, gwella mynediad at ofal cymdeithasol, a gwella gwasanaethau

ar gyfer iechyd menywod;

- **Swyddi a thwf gwyrdd**: Creu swyddi i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ond hefyd gwneud teuluoedd yn well eu byd, a chyflymu penderfyniadau cynllunio i dyfu economi Cymru;
- **Cyfle i bob teulu**: Hybu safonau mewn ysgolion a cholegau, a darparu mwy o gartrefi ar rent cymdeithasol; a hefyd
- **Cysylltu cymunedau**: Trawsnewid y rheilffyrdd, darparu rhwydwaith bysiau gwell, trwsio'r ffyrdd, a grymuso cymunedau lleol i wneud dewisiadau o 20mya.

### Cyllid

Ar 5 Rhagfyr, **cyhoeddodd y Prif Weinidog £157 miliwn o gyllid newydd** i gynorthwyo ei blaenoriaethau ar gyfer gweddill blwyddyn ariannol 2024-25.

Pan **gyflwynodd y Gyllideb Derfynol 2025-26 yn y Cyfarfod Llawn ar 4 Mawrth,** dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg fod £1.6 biliwn o gyllid ychwanegol eleni. Dywedodd Llywodraeth Cymru fod ei **chyllideb ar gyfer 2025-26** wedi cael ei harwain "gan egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a **blaenoriaethau'r Prif Weinidog**".

Wrth gyhoeddi canlyniad **Adolygiad Gwariant 2025**, dywedodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig y bydd cyllideb refeniw Llywodraeth Cymru (sy'n cyllido gwariant adrannol 'o ddydd i ddydd') yn cynyddu 0.9% ar gyfartaledd blynyddol mewn termau real rhwng 2025-26 a 2028-29.

**Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet ar 1 Gorffennaf** y bydd cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27 yn syml yn cynyddu cyllidebau adrannol yn unol â chwyddiant, yn hytrach nag adlewyrchu polisïau a blaenoriaethau newydd, gan adael cronfa o gyllid heb ei dyrannu ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru.

## 3. Y Rhaglen Lywodraethu

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **Rhaglen Lywodraethu ar gyfer 2021-26** ym mis Mehefin 2021, gan ei diweddaru ym mis Rhagfyr 2021 i adlewyrchu'r **Cytundeb Cydweithio** gyda Phlaid Cymru (sydd wedi dod i ben erbyn hyn).

Mae'r Rhaglen Lywodraethu wedi ei seilio ar 10 **'amcan llesiant',** sy'n cwmpasu amryw o feysydd polisi. Mae nifer o **ymrwymiadau** yn cyd-fynd â phob amcan llesiant ac, oherwydd eu bod yn rhychwantu portffolios, maent yn gyfrifoldeb ar Gabinet cyfan Llywodraeth Cymru. Mae nifer o **ymrwymiadau** sy'n gyfrifoldeb ar

**Ysgrifenyddion Cabinet / Gweinidogion unigol** hefyd.

Y **deg amcan llesiant** yw:

- Darparu gofal iechyd effeithiol, cynaliadwy ac o ansawdd uchel.
- Parhau â'n rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn lleihau a bod safonau'n codi.
- Diogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed.
- Dathlu amrywiaeth a gweithredu i ddileu anghydraddoldeb o bob math.
- Adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol.
- Bwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau i ffynnu.
- Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth inni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl.
- Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt.
- Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn.
- Arwain Cymru mewn sgwrs genedlaethol ar y cyd ynglŷn â'n dyfodol cyfansoddiadol, a rhoi'r presenoldeb cryfaf posibl i'n gwlad ar y llwyfan byd-eang.

## Adroddiadau Blynyddol Llywodraeth Cymru

Yn ystod tymor y Senedd hon, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi **adroddiad blynyddol bob mis Gorffennaf** sy'n nodi i ba raddau y llwyddwyd i roi'r Rhaglen Lywodraethu ar waith. Mae'r adroddiad yn cynnwys **atodiad sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf, ar 31 Mawrth y flwyddyn honno, am y 115 o ymrwymiadau** sy'n dod o dan y 10 amcan llesiant.

Cyhoeddwyd **adroddiad blynyddol 2024** ar 9 Gorffennaf 2024. Cafodd ei drafod yn y **Cyfarfod Llawn** ar 16 Gorffennaf 2024.

Mae dadl dan arweiniad Llywodraeth Cymru ar Gyflawni Blaenoriaethau a Rhaglen Ddeddfwriaethol y Llywodraeth **wedi ei threfnu ar gyfer y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 15 Gorffennaf**. Mae'r ddadl hon fel arfer yn ymwneud â'r **adroddiad blynyddol ar y Rhaglen Lywodraethu**, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru mewn blynyddoedd blaenorol tua wythnos cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn.

Oherwydd yr amserlen hon, ni fu'n bosibl adlewyrchu cynnwys yr adroddiad blynyddol yn y papur briffio hwn.

### Cyfres Ymchwil y Senedd, Medi 2023

Ym mis Medi 2023, cyhoeddodd Ymchwil y Senedd **gyfres o erthyglau**, gan ddefnyddio gwybodaeth gyhoeddus i grynhoi i ba raddau roedd Llywodraeth Cymru wedi llwyddo, ar y pryd, i roi ei Rhaglen Lywodraethu ar waith.

## 4. Sesiynau blaenorol y Pwyllgor a phwyslais y Prif Weinidog ar 'gyflawni'

Yn y sesiwn ar thema 'Cymru a'r Byd' gyda'r **Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog ar 13 Rhagfyr 2024**, pwysleisiodd y Prif Weinidog fod **ei ffocws ar gyflawni gwaith ac ymrwymiadau presennol, yn hytrach nag ysgrifennu strategaethau newydd neu wneud ymrwymiadau newydd**. Y casgliad clir oedd bod Eluned Morgan yn cyfeirio at waith y Llywodraeth yn gyffredinol ac nid materion rhyngwladol yn unig [pwyslais Ymchwil y Senedd yw'r holl brint trwm]:

> *I've done this across the whole of Government: can we stop the refreshes, **can we just focus on delivery, let's make sure we land what we said we're going to land**. [...]*
>
> *So, for me, it's all about, 'Let's stop writing strategies; let's make sure it's about delivery of the strategies.' It's actually much, much easier to write a strategy than to deliver one. And so, I'm trying to **shift the focus across the whole of Government** away from writing strategies all the time—'**Just focus on delivery of what we've got now on the table, get that done**. Once we've completed that, we'll look at the next thing.' That's where I'm at, in keeping, ideally, with the full priorities that I set out in September. [...]*
>
> *So, I'm trying to get to a different place. It's quite difficult to turn the Government machine around, but that's where I'm at. [...]*
>
> *... I now have a delivery Minister, and **we are going through the entire programme for government to make sure what have we delivered**, where are we short, what is it that we've got left to do.*

Gan gyfeirio at y strategaeth ryngwladol yn benodol, ond gan awgrymu bod y dull yn adlewyrchu rhaglen y Llywodraeth yn ei chyfanrwydd, ychwanegodd y Prif Weinidog:

> *There are areas within the strategy that are green, which have been done, they've been delivered. There are bits where it may be red and will continue to be red, and then we need to give you an explanation*

> *for why it is red. But there are lots of amber bits in there that we need to say, 'Right, come on, we've got 18 months left; let's get cracking, **let's make sure we deliver on what we said we were going to do**.' So, that is very much the formula that I'm very keen to make sure that you have sight of, where it is we're delivering, and also where you need to hold us to account because we're not.*

Gofynnwyd yn ystod sesiwn graffu amserol y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog ar **28 Mawrth 2025** ai ei dull hi oedd parhau i gydgrynhoi rhaglenni a strategaethau presennol yn hytrach na mentrau newydd. Cadarnhaodd y Prif Weinidog:

> *Absolutely, yes. I've been **very clear and focused on the four priorities**. Within those four priorities, there are very clear things that I'm trying to focus on. (…)*
>
> *So, I'm really making sure that the things that we said that we would do, we actually deliver on.*

## 5. Y berthynas rhwng y pedair blaenoriaeth a'r Rhaglen Lywodraethu

Fel yr eglurwyd yn barod, cyhoeddwyd **pedair blaenoriaeth y Prif Weinidog** ym mis Medi 2024, yn dilyn 'ymarfer gwrando' yr oedd hi wedi ei wneud ar ôl ei phenodiad. Yn ogystal, roedd gan Lywodraeth Cymru ei **Rhaglen Lywodraethu** yn barod – a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2021 ac a ddiweddarwyd ym mis Rhagfyr 2021.

Mae'r adrannau a ganlyn, sy'n cynnwys gwybodaeth am bob un o bedair blaenoriaeth y Prif Weinidog, yn rhestru amcanion llesiant y Rhaglen Llywodraeth sy'n ymddangos yn berthnasol i'r blaenoriaethau hynny, ynghyd â'r erthyglau ymchwil priodol o fis Medi 2023. **Nid yw'n ymddangos bod tri o'r 10 amcan llesiant wedi eu cynnwys yn uniongyrchol ym mhedair blaenoriaeth y Prif Weinidog.** Y rhain yw:

- **Dathlu amrywiaeth a symud tuag at ddileu anghydraddoldeb yn ei holl ffurfiau** (erthygl Ymchwil y Senedd, Medi 2023: ***Dathlu amrywiaeth a dileu anghydraddoldeb: rhethreg neu realedd?***)
- **Bwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau i ffynnu** (erthygl Ymchwil y Senedd, Medi 2023: ***Y Gymraeg, twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau: yn ffynnu ynteu'n goroesi?***)

- **Arwain Cymru mewn sgwrs genedlaethol ar y cyd ynglŷn â'n dyfodol cyfansoddiadol, a rhoi'r presenoldeb cryfaf posibl i'n gwlad ar y llwyfan byd-eang** (erthygl Ymchwil y Senedd, Medi 2023: ***Cymru gartref a thramor***)

# 6. 'Iechyd da – Cymru Iachach'

Mae Llywodraeth Cymru yn disgrifio'r flaenoriaeth hon fel **"lleihau amseroedd aros yn y Gwasanaeth Iechyd, gan gynnwys ar gyfer iechyd meddwl; a gwella mynediad at ofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd menywod".**

Amcanion llesiant perthnasol y Rhaglen Lywodraethu:

**Darparu gofal iechyd effeithiol, cynaliadwy ac o ansawdd uchel** (Erthygl Ymchwil y Senedd, Medi 2023: **A yw Llywodraeth Cymru ar y trywydd iawn i wireddu ei gweledigaeth o Gymru iachach?)**

**Diogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed** (Erthygl Ymchwil y Senedd, Medi 2023: **Cefnogi pobl 'agored i niwed': beth mae Llywodraeth Cymru yn ei gyflawni?)**

## Torri amseroedd aros y GIG, gan gynnwys ar gyfer iechyd meddwl

Mae Cymru yn parhau i wynebu **rhai o amseroedd aros hiraf y GIG ymhlith gwledydd y Deyrnas Unedig, gyda channoedd ar filoedd o gleifion yn dal i aros i ddechrau triniaeth.**

Yn ei **haraith gyweirnod** yng nghynhadledd Llafur Cymru ar 28 Mehefin 2025, tynnodd y Prif Weinidog sylw at **60% o ostyngiad** yn yr arosiadau hiraf rhwng Tachwedd 2024 ac Ebrill 2025, ynghyd â gwelliannau a adroddwyd o ran mynediad at apwyntiadau meddyg teulu. Siaradodd am weledigaeth glir i 'ailddychmygu' ac 'ailgynllunio' gofal y GIG ar gyfer y genhedlaeth nesaf.

Ar 19 Mehefin 2025, roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Jeremy Miles AS, wedi **cyhoeddi pecyn buddsoddi gwerth £120 miliwn** wedi ei anelu at **gyflymu'r gostyngiad mewn amseroedd aros ac ôl-groniadau triniaethau**. Bwriad y cyllid hwn yw helpu i dynnu 200,000 o gleifion oddi ar y rhestr aros gyffredinol, dileu pob arhosiad dwy flynedd, ac adfer amseroedd aros diagnostig i lai nag wyth wythnos erbyn mis Mawrth 2026.

Roedd **Cynllun Adfer Gofal wedi ei Gynllunio** Llywodraeth Cymru eisoes wedi gosod targedau cynharach, gan gynnwys dileu **arosiadau am fwy na dwy flynedd erbyn mis Mawrth 2023** ac **arosiadau am flwyddyn erbyn mis Mawrth 2025** ar gyfer y rhan fwyaf o arbenigeddau – wedi eu diffinio fel pob un ond saith a oedd ag ôl-groniadau cronig cyn y pandemig (gan gynnwys Dermatoleg, Llawfeddygaeth Gyffredinol, Offthalmoleg, Wroleg, Gynaecoleg, Orthopedig, a'r Glust, y Trwyn a'r Gwddf). Nid yw'r nodau hyn wedi eu cyflawni.

## Amseroedd aros cyfredol

Ym mis Ebrill 2025, mae dros **789,900 o lwybrau cleifion** yn aros i ddechrau triniaeth ar y GIG. Yn eu plith, **roedd 9,600 wedi bod yn aros am fwy na dwy flynedd**, sydd **429** yn uwch o'i gymharu â'r mis blaenorol. Yn yr un modd, roedd **159,500 o lwybrau cleifion** yn dal i aros am fwy na blwyddyn – ymhell y tu hwnt i darged Mawrth 2025 i ddileu oedi o'r fath.

Mae arosiadau hir ar gyfer apwyntiadau cleifion allanol cychwynnol hefyd yn anodd eu clirio. Ym mis Ebrill, cynyddodd nifer y cleifion a oedd yn aros dros flwyddyn am eu hapwyntiad cyntaf **3.6%** i ychydig o dan **73,200**, er bod hyn yn parhau i fod **28.7% yn is** na'r uchafbwynt ym mis Awst 2022. Methwyd hefyd â chyrraedd targed blaenorol i ddileu'r arosiadau hyn erbyn diwedd 2022, er bod y duedd tymor hwy yn dechrau dangos gwelliant.

O ran **gwasanaethau canser,** dechreuodd 1,956 o gleifion driniaeth ym mis Ebrill – cynnydd bach o'i gymharu â'r mis blaenorol. Fodd bynnag, mae perfformiad o ran y **targed allweddol 62 diwrnod** yn parhau i fethu cyrraedd y nod, gyda dim ond **60.5%** o gleifion yn dechrau triniaeth o fewn yr amserlen honno, ymhell islaw'r nod o 75% a gostyngiad o **dri phwynt canran** ers mis Mawrth. Mae'r llywodraeth yn awr wedi gosod targed diwygiedig o **80% erbyn 2026**.

Roedd meincnodau eraill yn y cynllun – fel **uchafswm aros wyth wythnos ar gyfer profion diagnostig** a **therfynau 14 wythnos ar gyfer gwasanaethau therapi –**i fod i gael eu cyflawni erbyn **gwanwyn 2024**, ond ni chyrhaeddwyd y dyddiadau cau hyn, chwaith.

Er bod rhywfaint o gynnydd yn amlwg, gan gynnwys **adroddiadau** nad oes gan **Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys** gleifion yn aros dros ddwy flynedd, mae eraill fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn parhau i gael trafferth, gyda'r nifer uchaf o arosiadau hir yng Nghymru. Mae Ysgrifennydd y Cabinet, Jeremy Miles, **wedi dadlau** bod amrywiad tymhorol yn cyfrif am y cynnydd diweddaraf ac yn honni y bydd y **£120 miliwn o gyllid** yn gyrru

cynnydd pellach, gyda phwyslais ar arloesi, llwybrau symlach, a "bargen cleifion" newydd sy'n anelu at wella cyfathrebu ac ymgysylltu.

### Iechyd meddwl

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **strategaeth iechyd meddwl a llesiant meddyliol ar gyfer 2025–2035** ym mis Ebrill 2025. Mae hyn yn cynnwys ffocws ar 'wasanaethau amserol', gan ddatgan "byddwn yn lleihau amseroedd aros am wasanaethau, yn dileu aros hir, ac yn gosod safonau amser aros sy'n ystyrlon yn glinigol".

Mae'r **cynllun cyflawni ar gyfer 2025-2028** a ddaeth gyda'r strategaeth iechyd meddwl yn cynnwys cam gweithredu i wella mynediad at ymyriadau a therapïau seicolegol.

> Bydd hyn yn cynnwys ffocws ar gyflyrau iechyd meddwl cyffredin fel gorbryder ac iselder yn ogystal â chefnogi pobl â seicosis, anhwylder deubegynol a chyflyrau sy'n deillio o drawma a phobl â chyflyrau iechyd corfforol hirdymor.

Mae'r **ffigurau amseroedd aros** diweddaraf (ar gyfer Mawrth 2025) yn dangos darlun sy'n gwella ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol (LPMHSS):

- Yn achos pobl dan 18 oed, cynhaliwyd 90.1% o asesiadau Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol (LPMHSS) o fewn 28 diwrnod. Dechreuwyd 80.5% o ymyriadau therapiwtig o fewn 28 diwrnod yn dilyn asesiad.
- Yn achos oedolion, cynhaliwyd 76.2% o asesiadau o fewn 28 diwrnod. Dechreuwyd 91.4% o ymyriadau therapiwtig o fewn 28 diwrnod yn dilyn asesiad.

Mae **Mind Cymru wedi tynnu sylw** at y ffaith bod pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl mwy difrifol yn dal i orfod aros yn hir i gael mynediad at therapïau seicolegol arbenigol yng Nghymru. Mae'r elusen hefyd wedi galw'n gyson am broses well i gasglu a rhannu data amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl.

## Gwella mynediad at ofal cymdeithasol

Roedd y cyn Brif Weinidog, Mark Drakeford AS, wedi canolbwyntio ar safonau gofal cymdeithasol plant, tra bod y Prif Weinidog presennol wedi nodi 'gwella mynediad at ofal cymdeithasol'.

## Gofalwyr

Mewn tystiolaeth i **ymchwiliad rhyddhau cleifion o'r ysbyty** y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, tynnodd rhanddeiliaid sylw at ddiffyg capasiti mewn gofal cymdeithasol (ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr di-dâl sydd angen cymorth). Clywodd y Pwyllgor fod gwasanaethau gofal cymdeithasol yn ei chael hi'n anodd bodloni'r galw, sy'n arwain at restrau aros ac oedi, yn rhannol oherwydd prinder gweithlu.

Er enghraifft, **adroddodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)** bod rhestrau aros wedi bod yn cynyddu, ar gyfer "pobl yn aros am becynnau gofal, ac asesiadau a/neu gyfarpar a chefnogaeth gan therapyddion galwedigaethol".

**Dywedodd Age Cymru fod ei arolwg yn 2024** o dros 1,300 o bobl hŷn ledled Cymru wedi canfod bod bron i un o bob pedwar o bobl hŷn yn dal i aros mwy na 30 diwrnod am asesiad gofal, a bod un o bob chwech yn aros mwy na 30 diwrnod i ofal fod ar waith yn 2024.

**Cyhoeddodd ADSS ei hadolygiad cyflym o hawliau gofalwyr di-dâl** ym mis Tachwedd 2023. Mae'r adolygiad yn dod i'r casgliad:

> Mae rhestrau aros ar gyfer asesiadau gofalwyr yn y rhan fwyaf o ardaloedd, sy'n atal gofalwyr rhag cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Nid yw asesiadau yn cael eu cynnig i lawer o ofalwyr. [...] Gofal seibiant yw'r angen mwyaf arwyddocaol nad yw'n cael ei ddiwallu.

Canfu **gwaith ymchwil Dilyn y Ddeddf 2024 Gofalwyr Cymru** bod rhwng 0.3% a 0.8% o ofalwyr di-dâl ledled Cymru wedi cael Asesiad Anghenion Gofalwyr yn 2023/24. Canfu hefyd bod 63% o ofalwyr yn yr un arolwg a oedd wedi ceisio cael cymorth gan wasanaethau gofal cymdeithasol wedi gorfod aros am amser hir am asesiadau, adolygiadau neu gymorth.

**Cynhaliodd Ombwdsmon Cymru 'ymchwiliad ar ei liwt ei hun'** i weinyddiaeth Asesiadau Anghenion Gofalwyr yn 2024, gan ymchwilio i bedwar awdurdod lleol. Canfu adroddiad yr Ombwdsmon mai dim ond 1.5% o'r boblogaeth gofalwyr yn yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd iddynt a gafodd asesiad a arweiniodd at gynllun cymorth.

## Y gweithlu

Canfu yr **adroddiad gweithlu diweddaraf sydd ar gael** (2023) bod cyfraddau swyddi gwag wedi "aros yn sefydlog" (ac yn debyg i'r flwyddyn flaenorol) gyda thua 5,299 o swyddi gwag yn y sector. Adroddwyd bod 9,499 o bobl wedi dechrau ar rôl

newydd mewn gofal cymdeithasol yng Nghymru a bod 9,503 wedi gadael y sector yn ystod y flwyddyn. Mae swyddi gwag gofal cartref yn cyfrif am fwy na 37.1% o gyfanswm y swyddi gwag mewn gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Canfu **arolwg gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru 2024** bod 25% o weithwyr gofal yn bwriadu gadael y sector (y cyfnod cyfartalog o amser yr oeddent yn gweld eu hunain yn aros oedd 12 mis).

Yn y sector plant mae her benodol o ran swyddi gwag ym maes gwaith cymdeithasol plant. Ym mis Tachwedd 2023, **dywedodd Gofal Cymdeithasol Cymru wrth y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg** bod 17.5% o'r 2,456 o weithwyr cymdeithasol gwasanaethau plant yn gweithio i asiantaeth.

### Data gofal cymdeithasol

Clywodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai hefyd am rwystredigaethau ynghylch y cyfyngiadau data presennol mewn gofal cymdeithasol. Roedd sylwadau bod llawer o ddata gofal cymdeithasol yn cael ei gasglu ond nad yw ar gael yn y parth cyhoeddus. Er enghraifft, casglir data ar amseroedd aros ar gyfer asesiadau gofal, gwasanaethau gofal ac ar swyddi gwag staff, ond ni chaiff unrhyw un o'r rhain ei gyhoeddi ac mae rhai rhanddeiliaid yn teimlo bod bwlch o ran tryloywder.

## Gwella gwasanaethau iechyd menywod

Yn ei **haraith allweddol** yng nghynhadledd Llafur Cymru ym mis Mehefin 2025, cadarnhaodd y Prif Weinidog ei hymrwymiad i iechyd menywod, gan ddatgan ei bod yn **rhoi lle blaenllaw** i hynny yn ystod ei harweinyddiaeth. Addawodd gyflwyno'r **Cynllun Iechyd Menywod** yn llawn a sicrhau bod canolfannau iechyd menywod yn cael eu sefydlu **ym mhob rhan o Gymru** cyn etholiad nesaf y Senedd.

Fodd bynnag, yn ei **waith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025–26**, cododd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol bryderon ynghylch y gallu i gyflawni'r uchelgais hon a'i chynaliadwyedd. Er bod y Pwyllgor wedi croesawu'r Cynllun Iechyd Menywod a'i amcanion, gwnaeth **ddau argymhelliad allweddol** i gryfhau ei weithrediad.

Yn gyntaf, galwodd y Pwyllgor am fwy o eglurder ynghylch rôl a chwmpas yr **Hybiau Iechyd Menywod newydd.** Pwysleisiodd fod yn rhaid i'r hybiau fynd y tu hwnt i swyddogaeth glinigol gul i fynd i'r afael ag amrywiaeth ehangach o faterion iechyd menywod - a chwarae rôl ystyrlon wrth fynd i'r afael â'r bwlch iechyd rhwng y rhywiau.

Mewn **ymateb,** derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn a chadarnhaodd fod Rhwydwaith Iechyd Menywod wrthi'n datblygu manyleb gwasanaeth manwl ar hyn o bryd. Bydd yr hybiau'n cynnig gofal integredig wedi ei deilwra i anghenion menywod, gan gynnwys iechyd atgenhedlu a gynaecolegol, cymorth iechyd meddwl, a rheoli clefydau cronig. Eu pwrpas yw gwella mynediad, hyrwyddo atal, a chynnig cymorth cydlynol, cyfannol i fenywod ar hyd eu hoes. Disgwylir i bob bwrdd iechyd sefydlu hwb braenaru erbyn mis Mawrth 2026. Er y gallai gwasanaethau cychwynnol ganolbwyntio ar iechyd atgenhedlu, pwysleisiodd Llywodraeth Cymru fod hyn yn adlewyrchu'r blaenoriaethau a nodwyd yn ei **Hadroddiad Darganfod** cynharach.

Roedd **yr ail argymhelliad yn canolbwyntio ar gyllid**. Anogodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lywodraeth Cymru i ddarparu ymrwymiad cyllid mwy cynhwysfawr, cynaliadwy i sicrhau bod y Cynllun Iechyd Menywod yn cyflawni canlyniadau **gweladwy, hirdymor**. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad mewn egwyddor, gan gyfeirio at ddyrannu **£3 miliwn** ar gyfer datblygu'r hybiau. Roedd **£3 miliwn** ychwanegol wedi cael ei fuddsoddi yn y gwaith o greu **Canolfan Ymchwil Iechyd Menywod** gyntaf Cymru, ochr yn ochr â **£750,000** ar gyfer ymchwil yn canolbwyntio ar iechyd menywod a gyhoeddwyd yn flaenorol.

Mae'r buddsoddiadau hyn, meddai Llywodraeth Cymru, yn rhan o ymrwymiad ehangach o fewn **cyllideb GIG Cymru, sy'n werth £11 biliwn**. Mae gwaith pellach ar y gweill i archwilio comisiynu **gwasanaethau arbenigol** mewn meysydd fel gofal endometriosis ac erthyliad llawfeddygol, gan roi'r rhain ar sail ariannol mwy sefydlog a hirdymor.

## 7. Swyddi gwyrdd a thwf

Mae Llywodraeth Cymru yn disgrifio'r flaenoriaeth hon fel "**creu swyddi gwyrdd sy'n mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac yn adfer natur, gan sicrhau bod teuluoedd ar eu hennill; a chyflymu penderfyniadau cynllunio i dyfu economi Cymru**".

Amcanion llesiant perthnasol y Rhaglen Lywodraethu:

**Adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol** (Erthygl Ymchwil y Senedd, Medi 2023: ***Adeiladu'r economi: A yw Llywodraeth Cymru yn llwyddo i sicrhau gwaith teg, cyna-***

***liadwyedd ac economi'r dyfodol?***)

**Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth inni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl** (Erthygl Ymchwil y Senedd, Medi 2023: ***Datgarboneiddio economi Cymru: Sbotolau ar drafnidiaeth ac amaethyddiaeth***)

**Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn** (Erthygl Ymchwil y Senedd, Medi 2023: ***Mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur: A oes angen mwy o gynnydd i gyflawni ymrwymiadau'r llywodraeth?***)

Ym mis Ebrill 2019, **cyhoeddodd Llywodraeth flaenorol Cymru 'argyfwng hinsawdd'** i dynnu sylw at "aruthredd a phwysigrwydd tystiolaeth ddiweddaraf y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd".

Cyhoeddir data allyriadau nwyon tŷ gwydr tiriogaethol blynyddol ar gyfer gwledydd y Deyrnas Unedig gan **Restr Allyriadau Atmosfferig Cenedlaethol y Deyrnas Unedig**, gyda'r **diweddaraf ohonynt ar gyfer 2023**. Hyd at 2023, mae cyfanswm allyriadau Cymru wedi gostwng 38% o'i gymharu â'r llinell sylfaen (1990 ar gyfer rhai nwyon a 1995 ar gyfer eraill).

Mae **Rhan 2 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** yn ei gwneud yn ofynnol lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr i sero net erbyn 2050, ac i Weinidogion Cymru osod polisïau ar gyfer datgarboneiddio sy'n cyd-fynd â chyllidebau carbon pum mlynedd. **Cyflawnodd Llywodraeth Cymru ei chyllideb carbon gyntaf (2016-2020) a tharged interim 2020** gyda 27.8% o ostyngiad cyfartalog mewn allyriadau, sy›n fwy na›r nod o 23%.

## Creu swyddi gwyrdd sy'n mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac yn adfer natur, gan hefyd sicrhau bod teuluoedd ar eu hennill

Yn **Cenhadaeth economaidd: blaenoriaethau ar gyfer economi gryfach** Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd yn 2023, nodir bod trawsnewidiad cyfiawn a ffyniant gwyrdd yn un o'i phedair blaenoriaeth economaidd. Bydd yr Economi Werdd yn un o'r meysydd pwysicaf o ran datblygiad economaidd ar gyfer y ddegawd nesaf.

Fodd bynnag, ym mis Mai 2025, cyhoeddodd **tri chorff masnach sector adnewyddadwy** – RenewableUK Cymru, Ynni Môr Cymru, a Solar Energy UK – adroddiad lle dywedwyd:

> Over the past decade, the progress of the renewable energy industry in

> Wales has been slower than across other UK nations, including England, where a ban on onshore wind activity was in place.

Galwyd ar Lywodraeth Cymru yn yr adroddiad i fabwysiadu dull datblygu sy'n 'sicrhau'r defnydd mwyaf o ynni adnewyddadwy'; gosod targedau gofynnol ar gyfer technolegau ynni adnewyddadwy; creu fframwaith rheoleiddio a pholisi gwell; a chyflymu cynnydd ar gytundeb sector ynni adnewyddadwy.

Ar 19 Mehefin, **cyhoeddodd Ystâd y Goron** y cynigwyr a ffafrir i ddarparu dwy fferm wynt arnofiol ar y môr yn y Môr Celtaidd – Equinor a Gwynt Glas (menter ar y cyd rhwng EDF Renewables ac ESB). Bydd yn nodi manylion am y camau nesaf i gyflwyno trydedd fferm wynt yn y Môr Celtaidd ym mis Medi 2025. Dywedir mewn gwaith **ymchwil a gomisiynwyd gan Ystâd y Goron** y gallai hyn gefnogi hyd at 5,300 o swyddi a chynyddu Gwerth Ychwanegol Gros y Deyrnas Unedig hyd at £1.4 biliwn.

Wrth ymateb i'r cyhoeddiad ar 19 Mehefin, **dywedodd y Prif Weinidog wrth y BBC** "Yn amlwg y peth cyntaf fyddwn ni yn ei wneud fel llywodraeth yw codi'r ffôn i ofyn i'r cwmnïau yma 'reit sut ydyn ni am weithio gyda'n gilydd i greu gymaint o swyddi a phosib yng Nghymru?'".

**Dywed Ystâd y Goron** bod y cynigwyr a ffafrir wedi nodi porthladdoedd Port Talbot a Bryste fel y lleoliadau tebygol ar gyfer cydosod y tyrbinau gwynt. Cadarnhawyd yn **Adolygiad Gwariant 2025** Llywodraeth y Deyrnas Unedig bod £80 miliwn o gyllid wedi ei ddyrannu drwy'r **Cynllun Buddsoddi mewn Gweithgynhyrchu Ynni Gwynt Arnofiol yn y Môr** (FLOWMIS) i ategu'r defnydd o seilwaith ynni gwynt arnofiol ym mhorthladd Port Talbot, yn amodol ar ddiwydrwydd dyladwy terfynol. **Dywedodd** Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, er ei bod hi'n "falch iawn" bod y cyllid wedi ei gadarnhau, y **byddai** "wedi hoffi cael y sicrwydd hwnnw ynglŷn â chyllid FLOWMIS yn gynharach".

Ar 24 Mehefin, cyhoeddodd grŵp gorchwyl a gorffen ynni gwynt arnofiol ar y môr Llywodraeth Cymru **ei gynllun gweithredu**. Mae'r argymhellion allweddol yn cynnwys y canlynol:

- sefydlu fforwm lle mae partneriaid allweddol yn cydweithio i wneud y mwyaf o fanteision lleol ffermydd gwynt newydd yn y Môr Celtaidd erbyn hydref 2025;
- symleiddio'r broses gynllunio a chydsynio, a darparu map ffordd clir o ofynion i ddatblygwyr i gyflymu amserlenni prosiect a lleihau costau;
- gweithredu cymorth wedi ei dargedu i fusnesau Cymru fynd i mewn i'r gadwyn

gyflenwi gwynt ar y môr;

- cydlynu datblygu sgiliau ar draws sefydliadau i fynd i'r afael â bylchau sgiliau penodol i'r sector mewn meysydd fel technoleg tyrbinau gwynt a pheirianneg drydanol foltedd uchel; ac
- integreiddio'r sectorau dur a choncrit â datblygiad ynni gwynt ar y môr.

Yn **ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Economi Werdd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig** tynnir sylw at y rôl mae'n gobeithio y bydd yr uwchgynhadledd fuddsoddi sydd ar ddod i Gasnewydd yn ei chwarae o ran sicrhau buddsoddiad:

> Bydd ein Huwchgynhadledd i Fuddsoddwyr yn dod â buddsoddwyr i Gymru yn yr economi wyrddach honno, bydd yn cyflwyno'r cyfleoedd sydd gan y wlad hon i'w cynnig a'r trawsnewidiad ynni sydd eisoes wedi dechrau.

## Cyflymu penderfyniadau cynllunio i dyfu economi Cymru

Canfu adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar **yr Economi Werdd**, er bod Deddf Seilwaith 2024 wedi symleiddio'r broses caniatâd seilwaith, roedd "pryderon ynghylch diffyg capasiti yn y system gynllunio". Arweiniodd y rhain at oedi a **ddisgrifiwyd gan RenewableUK Cymru fel** 'risg sylweddol' i uchelgeisiau ynni adnewyddadwy a sero net yng Nghymru – a fydd yn anochel yn effeithio ar gyfleoedd economaidd cysylltiedig.

Ar 26 Mehefin, nododd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio **y camau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd** i geisio cyflymu penderfyniadau cynllunio:

- buddsoddi £9 miliwn mewn gwasanaethau cynllunio a ddarperir gan gyrff Penderfyniadau Cynllunio a'r Amgylchedd Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, a chyfarwyddiaeth gynllunio Llywodraeth Cymru;
- darparu cyllid ar gyfer dwy rôl Uwch Gynlluniwr i weithio ar geisiadau seilwaith fel rhan o wasanaeth cynllunio a rennir yng ngogledd Cymru;
- cyflwyno rheoliadau ffioedd newydd erbyn diwedd 2025, gyda refeniw ffioedd cynyddol yn cael ei ailfuddsoddi mewn gwasanaethau cynllunio; a hefyd
- creu cynllun Bwrsariaethau Cynllunio Tref newydd i gynyddu nifer y cynllunwyr cymwys, gyda Llywodraeth Cymru yn talu i raddedigion gael cymhwyster cynllunio ôl-raddedig.

## Sgiliau gwyrdd

Yn ystod sesiwn dystiolaeth yn y Pwyllgor Materion Cymreig ar 12 Chwefror 2025, **pan holwyd am sgiliau gwyrdd**, dywedodd y Prif Weinidog fod rhan o'i phryder ynglŷn â sgiliau yn ymwneud â pheidio â bod eisiau 'mynd amdani yn rhy gynnar':

> We can put people in sixth forms through a particular green skills course at the moment and they will come out in two years' time. But floating offshore wind probably will not be ready in two years' time. You do not want to build up frustration- to watch those people be skilled up and leave.

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth hon, cadarnhaodd y Prif Weinidog hefyd fod grŵp gorchwyl a gorffen wedi ei sefydlu gan ddefnyddio rhan o'r £1 miliwn o gyllid sydd ar gael ar gyfer sgiliau i fapio amserlen ar gyfer 'pwy fydd yn gwneud beth a phryd'.

Yn **adroddiad Economi Werdd** Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, nodir bod nifer o dystion yn bryderus am **brinder sgiliau.** Dywedodd y felin drafod, Onward, fod prinder sgiliau yn broblem benodol i'r trawsnewidiad gwyrdd ym mhob sector, bron a bod. Nododd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru bod y sgiliau yn y system addysg a'r rhai y mae eu hangen ar fusnesau yn anghymesur. Ychwanegodd fod y cyfyng-gyngor strwythurol hwn yn deillio o gyfuniad o ffactorau o bosibl, gan gynnwys diffyg gweledigaeth wrth ragweld gofynion sgiliau a methiant i addasu addysg a hyfforddiant galwedigaethol yn ddigonol i fynd i'r afael ag anghenion esblygol y farchnad lafur.

Mewn perthynas â her ailhyfforddi ac uwchsgilio gweithwyr, adroddodd rhanddeiliaid am amrywiaeth o faterion gan gynnwys darparwyr addysg bellach ac addysg uwch yn ansicr o'r galw am gyrsiau o'r fath a phiblinell aneglur o waith sy'n tanseilio buddsoddiad mewn sgiliau a hyfforddiant.

Awgrymir yn adroddiad Economi Werdd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, "os nad oes gan weithlu Cymru y sgiliau i gyflawni'r swyddi [gwyrdd] hynny, bydd busnes yn edrych yn rhywle arall a bydd y swyddi hynny'n cael eu creu yno". Eir ymlaen i amlygu pa mor bwysig yw hi bod gan Lywodraeth Cymru ddealltwriaeth o sgiliau'r gweithlu presennol, yr angen yn y dyfodol a sut mae'n sicrhau bod y ddwy elfen hynny'n cwrdd ar adeg briodol. Yn ogystal, dywedir bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru "weithio gyda diwydiant a darparwyr sgiliau i sicrhau bod y sgiliau yno i annog buddsoddiad yng Nghymru a chreu swyddi medrus iawn sy'n talu'n dda".

Tra bod Llywodraeth Cymru **'wedi dderbyn mewn egwyddor'** argymhelliad yr adroddiad ar gyfer archwiliad sgiliau, nodwyd cyfyngiadau data fel her benodol. Yn

ei ymateb, tynnodd sylw at Adolygiad Sgiliau Gwyrdd sydd ar y gweill, ac y disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn mis Medi 2025.

# 8. Cyfle i bob teulu

Mae Llywodraeth Cymru yn disgrifio'r flaenoriaeth hon fel "**hybu safonau mewn ysgolion a cholegau a darparu rhagor o gartrefi ar gyfer y sector rhent cymdeithasol, gan sicrhau bod pob teulu yn cael cyfle i lwyddo**".

Amcanion llesiant perthnasol y Rhaglen Lywodraethu:

**Parhau â'n rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn lleihau a bod safonau'n codi** (Erthygl Ymchwil y Senedd, Medi 2023: ***Diwygio addysg: Cenhadaeth Llywodraeth Cymru i wella safonau a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau***)

**Diogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed** (Erthygl Ymchwil y Senedd, Medi 2023: ***Cefnogi pobl sy'n 'agored i niwed': beth mae Llywodraeth Cymru yn ei gyflawni?***)

**Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt** (Erthygl Ymchwil y Senedd, Medi 2023: ***Dinasoedd, trefi a phentrefi: gallant ond fod yn lleoedd "gwell fyth")***

## Hybu safonau mewn ysgolion a cholegau

Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu **'cenhadaeth genedlaethol' i wella safonau addysg**, mewn amrywiol ffurfiau, ers **Canlyniadau Rhaglen Asesu Myfyrwyr Rhyngwladol (PISA) 2009.** Disgrifiodd y Gweinidog Addysg ar y pryd y rhain fel **"ysgytwad i system hunanfodlon" a "thystiolaeth o fethiant systemig".**

Mae polisïau a ddilynwyd ers hynny wedi cynnwys mwy o ffocws ar **lythrennedd a rhifedd** gan gynnwys drwy brofion blynyddol neu **'asesiadau wedi eu personoli'** fel y daethant i gael eu galw; mwy o bwyslais ar **ddysgu proffesiynol ac arweinyddiaeth athrawon** mewn addysg; a buddsoddiad cyfalaf mewn **adeiladau ysgolion a cholegau**. Yn sgil pryderon ynghylch gwasanaethau addysg awdurdodau lleol, cafodd eu swyddogaethau gwella ysgolion eu **cronni mewn consortia rhanbarthol**. Ar ôl dros ddegawd o weithio rhanbarthol, mae'r trefniadau hyn **yn cael eu gwrthdroi ar hyn o bryd** o dan y **Rhaglen Partneriaeth Gwella**

**Ysgolion.**

Ym mis Mawrth 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **'fap trywydd',** gan roi trosolwg wedi ei ddiweddaru o flaenoriaethau addysg Llywodraeth Cymru. **Blaenoriaethau Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg** yw **gwella cyrhaeddiad, yn enwedig mewn perthynas â llythrennedd a rhifedd, a gwella presenoldeb.**

Rhoddwyd cyllid ac ymyriadau wedi eu targedu, gyda'r nod o leihau'r bwlch cyrhaeddiad – rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion – gan gynnwys y **Grant Datblygu Disgyblion.** Mae Llywodraeth Cymru yn gwario tua £130 miliwn y flwyddyn ar y Grant Datblygu Disgyblion, sy'n ategu cyllidebau ysgolion ar sail nifer eu disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (£1,150 fesul disgybl cymwys).

## Diwygiadau mawr i fyd Addysg

Rhywbeth arall sy'n ganolog i ymdrechion i godi safonau yw **gweithredu diwygiadau mawr i fyd addysg:**

- Y **Cwricwlwm i Gymru,** a sefydlwyd o dan **Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021**; sy'n parhau â'i estyniad flwyddyn ar ôl blwyddyn i Flwyddyn 10 ym mis Medi eleni.
- Y **System Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)** newydd, a sefydlwyd o dan **Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018,** sy'n cwblhau ei gyflwyniad graddol erbyn diwedd y flwyddyn ysgol hon.

Mae gan bob dysgwr y nodwyd bod ganddynt ADY hawl i Gynllun Datblygu Unigol (CDU). Mae gan hyn oblygiadau o ran llwyth gwaith i ysgolion, a allai esbonio'n rhannol pam **mae llai o ddisgyblion yn cael eu nodi/cydnabod fel rhai sydd ag ADY** – **44% o ostyngiad ers i'r system newydd ddechrau cael ei chyflwyno dair blynedd yn ôl.** Mae hyn **er gwaethaf y ffaith bod y diffiniad o ADY yn parhau i fod yr un fath** â'r diffiniad blaenorol o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA). Ar yr un pryd â'r gostyngiad yn nifer y rhai y cofnodwyd bod ganddynt ADY, mae ysgolion ac awdurdodau lleol wedi adrodd bod **mwy o ddysgwyr yn dangos anghenion cymhleth.**

Mae **Briff Ymchwil y Senedd ar ddeiseb ddiweddar** yn rhoi rhagor o wybodaeth am ddiwygio ADY.

## Heriau sy'n wynebu addysg

**Tarfodd y pandemig COVID-19 ar y genhadaeth genedlaethol** i wella safonau mewn addysg. Rhagorwyd ar yr ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i **recriwtio 1,800 o staff ychwanegol** i gynorthwyo adferiad byd addysg ar ôl y pandemig, er bod **heriau eraill o ran recriwtio a chadw athrawon.**

**Mae presenoldeb disgyblion yn parhau i achosi pryder sylweddol,** ar ôl **peidio â dychwelyd i lefelau cyn y pandemig**. Mae'r **data diweddaraf a gyhoeddir fesul pythefnos** gan Lywodraeth Cymru yn dangos bod **presenoldeb mewn ysgolion cynradd ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25 hyd at 20 Mehefin yn 92.7% a bod presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yn 88.8%.** Mae lefelau wedi codi o'u pwynt isaf yn 2022/23 ond maent yn parhau i fod yn is na'r lefelau cyn y pandemig, sef 94.7% a 93.9% yn y drefn honno (2018/19).

Mae **pryderon penodol** hefyd ynghylch lefelau absenoldeb parhaus (a ddiffinnir fel disgybl sy'n colli mwy na 10% o'r ysgol) a phresenoldeb disgyblion difreintiedig, fel y'u mesurir yn ôl y rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim.

Mae mynd i'r afael ag **ymddygiad a disgyblaeth** mewn ysgolion hefyd yn uchel ar yr agenda bolisi, gyda Llywodraeth Cymru yn cynnal 'cyfarfod bord gron ar drais a diogelwch' ac 'uwchgynhadledd genedlaethol ar ymddygiad' ym mis Mai.

## Arsylwadau Estyn

Mae **adroddiad blynyddol diweddaraf** Prif Arolygydd Estyn yn sôn am ddarlun cymysg o ran addysg a hyfforddiant yng Nghymru, gyda rhywfaint o arfer cryf ond meysydd allweddol y mae angen eu gwella.

Dywed y prif arolygydd nad yw ansawdd yr addysgu a'r asesu yn aml yn ddigon da, gyda thros hanner yr **ysgolion uwchradd** ac un rhan o dair o'r **ysgolion cynradd** a arolygwyd yn cael argymhelliad i wella'r addysgu. Mae'r adroddiad **hefyd yn amlygu** diffygion o ran hunanwerthuso a hunan-wella ysgolion sy'n "atal cynnydd gormod o ddysgwyr."

Canfu **adroddiad diweddar gan Estyn** hefyd fod "ansawdd addysgu mathemateg yn rhy amrywiol ac roedd safonau disgyblion mewn mathemateg yn rhy isel".

Bu cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n mynd i golegau addysg bellach (AB) yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, **adroddodd y Prif Arolygydd** bod cyfran fwy o ddysgwyr nag arfer mewn Addysg Bellach wedi cael trafferth addasu i

ofynion rhaglenni Safon UG/Safon Uwch. Dywedodd hefyd fod “cyfran y dysgwyr a enillodd raddau uwch mewn darpariaeth raddedig, ar raglenni galwedigaethol a Safon Uwch, yn rhy isel” a bod “colegau’n cydnabod yr angen i wella cyfraddau cwblhau llwyddiannus”.

## Canlyniadau addysgol

Oherwydd canslo arholiadau yn ystod y pandemig, dyfarnwyd cymwysterau yn wahanol yn 2020 a 2021. Pan ddychwelodd arholiadau yn 2022, roedd **newid graddol wedi ei gynllunio yn ôl i lefelau cyn y pandemig** dros dair blynedd (hyd at 2024). Gan hynny, ni fu’n bosibl cymharu canlyniadau dros amser ers rhai blynyddoedd bellach.

Fodd bynnag, mae’n bosibl edrych ar safle cymharol gwahanol grwpiau o ddisgyblion a sut mae’r rhain wedi newid dros amser, sy’n ganolog i amcan Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru i leihau anghydraddoldebau addysgol. Mae Tabl 1 isod yn dangos bod y **bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a’u cyfoedion wedi ehangu yn ystod y cyfnod cyn y pandemig ac ers hynny.**

**Tabl 1: Cyrhaeddiad TGAU yn ôl cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim**

| % y disgyblion sy’n llwyddo i ennill graddau TGAU | | | |
|---|---|---|---|
| | A*-A | | |
| | Gymwys i PYD | Ddim yn gwmwys i PYD | Y gwahaniaeth mewn pwyntiau canran |
| **2015/16** | 8.0% | 22.6% | 14.6 |
| **2018/19** | 6.6% | 21.4% | 14.8 |
| **2023/24** | 7.4% | 22.2% | 14.8 |

| % y disgyblion sy'n llwyddo i ennill graddau TGAU | | | |
|---|---|---|---|
| | **A*-C** | | |
| | **Gymwys i PYD** | **Ddim yn gwmwys i PYD** | **Y gwahaniaeth mewn pwyntiau canran** |
| **2015/16** | 50% | 74.9% | 24.9 |
| **2018/19** | 40.7% | 68.8% | 28.1 |
| **2023/24** | 39.6% | 68.4% | 28.8 |

| % y disgyblion sy'n llwyddo i ennill graddau TGAU | | | |
|---|---|---|---|
| | **A*-G** | | |
| | **Gymwys i PYD** | **Ddim yn gwmwys i PYD** | **Y gwahaniaeth mewn pwyntiau canran** |
| **2015/16** | 96.6% | 99.2% | 2.6 |
| **2018/19** | 92.0% | 97.7% | 5.7 |
| **2023/24** | 89.7% | 97.3% | 7.6 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, **Canlyniadau arholiadau: Medi 2023 i Awst 2024,** 5 Rhagfyr 2024, Tabl 5b

Roedd data a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2024 ar **asesiadau personol mewn darllen a rhifedd,** a gymerwyd gan ddisgyblion ym Mlynyddoedd 2 i 9, hefyd yn dangos dirywiad a oedd yn cyd-daro â'r pandemig. Fodd bynnag, mae'r **data diweddaraf ar gyfer 2023/24**, a gyhoeddwyd ar 19 Mehefin 2025, yn dangos **rhywfaint o welliant ar y flwyddyn flaenorol.**

Cwympodd **sgoriau'r Rhaglen Asesu Myfyrwyr Rhyngwladol (PISA)** ymhellach y tu ôl i weddill y Deyrnas Unedig a'r cyfartaledd rhyngwladol yn y cylch diweddaraf yn 2022.

## Darparu mwy o dai rhent cymdeithasol

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i adeiladu **20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel newydd i'w rhentu.**

Cafodd yr **ystadegau diweddaraf ar y ddarpariaeth tai fforddiadwy** eu cyhoeddi ar 11 Rhagfyr 2024, sy'n dangos bod 8,933 o gartrefi wedi eu sicrhau tuag at y targed o 20,000 erbyn mis Mawrth 2024.

Y rhaglen Grant Tai Cymdeithasol yw prif grant cyfalaf Llywodraeth Cymru sy'n cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu tai fforddiadwy. Mae'r ffrwd grantiau hon yn cynnwys y Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol (TACP), a gyflwynwyd yn 2022-23 i gynorthwyo prosiectau sy'n datblygu tai yn gyflym mewn ffordd hyblyg, gan gynnwys drwy gaffaeliadau, ailfodelu a dulliau adeiladu modern. Gall caffaeliadau fod ar gyfer llety parhaol neu lety dros dro tymor hwy 'yn y cyfamser'.

Yng nghyllideb y flwyddyn gyfredol, mae'r Grant Tai Cymdeithasol wedi ei gynyddu i £437.25 miliwn, sy'n 32.5% o gynnydd ar Grant Tai Cymdeithasol y llynedd. Dywed Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol, Jayne Bryant AS, y bydd hyn yn **cyfrannu at y targed o 20,000** yn ogystal â chyllido cartrefi cymdeithasol a fydd yn dechrau yn 2025-26 ac yn cael eu cwblhau yn nhymor y Senedd nesaf.

Ym mis Ionawr 2025 cyhoeddodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ei **adroddiad ar gyflenwad tai cymdeithasol**, a wnaeth argymhellion mewn meysydd fel cynllunio, cyllido, a rheoli tir yn strategol. Galwyd ar Lywodraeth Cymru yn yr adroddiad i fabwysiadu nod o gynyddu tai cymdeithasol fel cyfran o stoc tai Cymru, o'r **16% presennol** i o leiaf 20%. **Derbyniodd Llywodraeth Cymru bob argymhelliad ac eithrio tri** yn llawn neu mewn egwyddor.

Ym mis Mai 2025, fe wnaeth y Tasglu Tai Fforddiadwy a benodwyd gan Lywodraeth Cymru, dan gadeiryddiaeth Lee Waters AS, **gyhoeddi ei adroddiad** ac argymhellion. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i werthuso a gweithredu'r argymhellion **'cyn gynted â phosibl'.** Mewn **datganiad ysgrifenedig**, a gyhoeddwyd ar 26 Mehefin, dywedodd bod yr argymhellion yn cael cefnogaeth traws-Gabinet ac y bydd Grŵp Gweithredu, dan gadeiryddiaeth Ysgrifennydd y Cabinet, yn cael ei sefydlu i oruchwylio cynnydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn dweud bod cyflenwad digonol o dai cymdeithasol yn **hanfodol i lwyddiant y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru)**, sydd ar hyn o bryd yng Nghyfnod 1 y broses graffu.

# 9. Cysylltu cymunedau

Mae Llywodraeth Cymru yn disgrifio'r flaenoriaeth hon fel "**trawsnewid ein rheilffyrdd a darparu gwell rhwydwaith bysiau; a thrwsio ein ffyrdd a grymuso cymunedau lleol i benderfynu ar y terfyn cyflymder 20mya**".

Amcanion llesiant perthnasol y Rhaglen Lywodraethu:

**Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt** (Erthygl Ymchwil y Senedd, Medi 2023 **Dinasoedd, trefi a phentrefi: gallant ond fod yn lleoedd "gwell fyth")**

**Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth inni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl** (Erthygl Ymchwil y Senedd, Medi 2023: **Datgarboneiddio economi Cymru: Sbotolau ar drafnidiaeth ac amaethyddiaeth**)

## Trawsnewid ein rheilffyrdd

### Perfformiad Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru (Rheilffyrdd TrC)

Ym mis Ebrill 2023, **ysgrifennodd** y corff gwarchod teithwyr Transport Focus at TrC ynghylch perfformiad gwael a achosir gan 'broblemau parhaus â'r fflyd.' Tynnodd sylw at ei **arolwg defnyddwyr rheilffyrdd ym mis Mawrth 2023** a osododd Rheilffyrdd TrC yn gydradd olaf ym Mhrydain o ran bodlonrwydd cyffredinol teithwyr, er bod pethau wedi gwella ers hynny.

Mae TrC yn cyhoeddi **data ar berfformiad Rheilffyrdd TrC** ar ei wefan.

Mae **arolwg defnyddwyr Mehefin 2025** yn dangos sgôr 'gymharol gyfartalog' Rheilffyrdd TrC o ran bodlonrwydd cyffredinol – er bod y canlyniadau'n dal yn gymharol isel mewn meysydd fel prydlondeb a dibynadwyedd.

Yn **adroddiad diweddaraf** y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith ar Trafnidiaeth Cymru croesawyd y gwelliant mewn perfformiad. Fodd bynnag, nodwyd hefyd **sylwadau gan Brif Weithredwr Rheilffyrdd TrC,** James Price, yn

ystod gwaith craffu ym mis Ionawr bod oedi wrth i gerbydau newydd ddod ar waith yn parhau i fod yn ffactor mewn problemau perfformiad parhaus.

Ym **mhapur TrC ar gyfer y cyfarfod hwnnw** nodwyd y bydd pob uned yn cael eu rhoi ar waith "erbyn diwedd 2026". **Bwriad TrC yn wreiddiol** oedd y byddai 95% o deithiau yn digwydd ar drenau newydd erbyn 2023. **Mae'r oedi wedi ei briodoli** i COVID a chwyddiant, yn ogystal â **materion yn gysylltiedig â'r gadwyn gyflenwi.**

## Buddsoddiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig mewn seilwaith rheilffyrdd

Nid yw seilwaith rheilffyrdd (y tu allan i Linellau Craidd y Cymoedd, sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru) wedi ei ddatganoli. Mae lefelau buddsoddiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig mewn seilwaith wedi bod yn destun pryder ers tro byd yng Nghymru.

Mae **erthygl gan Ymchwil y Senedd ym mis Tachwedd 2024** yn rhoi cefndir y mater hwn.

**Daeth Canolfan Llywodraethiant Cymru i'r casgliad** y byddai Cymru, rhwng 2011-12 a 2019-20, wedi cael £514 miliwn ychwanegol ar gyfer gwelliannau (h.y. prosiectau mawr) drwy Network Rail pe bai seilwaith y rheilffyrdd wedi ei ddatganoli fel yn yr Alban.

Ym mis Mehefin 2023 **ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet ar y pryd at holl Aelodau'r Senedd** ynglŷn â HS2. Amcangyfrifodd y byddai £350 miliwn o gyllid ychwanegol o wedi dod i Gymru ar gyfer y blynyddoedd hyd at 2024-25 pe bai HS2 wedi ei ddynodi'n brosiect Lloegr yn unig, a thrwy hynny wedi cynhyrchu cyllid canlyniadol Barnett.

**Ar 4 Mehefin cyhoeddodd y Canghellor** £15.6 biliwn o gyllid ar gyfer prosiectau trafnidiaeth lleol yn ninas-ranbarthau Lloegr. Yn yr **Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant ar 11 Mehefin**, addawodd £445 miliwn dros oes 10 mlynedd y Strategaeth Seilwaith arfaethedig. **Eglurwyd mewn datganiad dilynol gan Lywodraeth Cymru:**

> Caiff £350m ei ddarparu dros gyfnod yr adolygiad gwariant, gan gynnwys £302m i ddechrau cyflawni'r llif o flaenoriaethau ym maes gwella'r rheilffyrdd a nodwyd gan Fwrdd Rheilffyrdd Cymru a £48m ar gyfer gwelliannau i Linellau Craidd y Cymoedd. Bydd Cymru yn cael £95m hefyd drwy'r Strategaeth Seilwaith 10 mlynedd.

**Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg** "bod hyn yn dechrau mynd i'r afael â'r tanwariant hanesyddol o ran buddsoddi mewn rheilffyrdd yng

Nghymru".

Daeth **yr Athro Mark Barry o Brifysgol Caerdydd** i'r casgliad, gan dynnu sylw at y ffaith bod y cyhoeddiad yn cynnwys tua £34 biliwn mewn gwariant gwella rheilffyrdd yn y cyfnod CSR tair blynedd ar draws Prydain, ei bod yn ymddangos bod Cymru yn cael ei 'thangyllido'n ddirfawr' o'i chymharu â gweddill y Deyrnas Unedig.

**Disgrifiodd Dadansoddi Cyllid Cymru** y cyllid rheilffyrdd fel 'siom fawr' yng nghyd-destun absenoldeb symiau canlyniadol o HS2. **Amcangyfrifodd Dadansoddi Cyllid Cymru** bod cyfanswm y golled yn sgil HS2 rhwng 2016-17 a 2029-30 (mewn cyferbyniad ag amcangyfrif Llywodraeth Cymru hyd at 2024-25) bellach yn £845 miliwn, ac y bydd yn parhau i dyfu'n sylweddol yn Adolygiadau Gwariant yn y dyfodol (sylwer, roedd amcangyfrif Llywodraeth Cymru uchod yn mynd at 2024-25, nid 2029-30).

Mae Llywodraethau Cymru a'r Deyrnas Unedig **wedi bod yn gweithio** gyda TrC, Network Rail a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu cyfres o brosiectau gwella rheilffyrdd. Fodd bynnag, nid yw'r cynnwys wedi ei gyhoeddi. **Mae adroddiadau yn y cyfryngau yn awgrymu** bod y Canghellor yn ôl y sôn wedi dweud wrth newyddiadurwyr, yn ystod ymweliad â de Cymru ar 13 Mehefin, ei bod hi wedi rhoi "popeth y gofynnodd Llywodraeth Cymru amdano".

## Darparu rhwydwaith bysiau gwell

Bydd **Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru),** a gyflwynwyd i'r Senedd ar 31 Mawrth, (os caiff ei basio) yn sefydlu fframwaith newydd ar gyfer darparu gwasanaethau bysiau, gan symud o'r farchnad ddadreoledig bresennol i system wedi ei chynllunio a'i chyflwyno gan Weinidogion Cymru a TrC, gan weithio gyda llywodraeth leol a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Bwriad Llywodraeth Cymru yw mai contractau masnachfraint fydd y prif fecanwaith ar gyfer darparu gwasanaethau. Mae Llywodraeth Cymru a TrC wedi cyhoeddi **Map Ffordd i Ddiwygio Bysiau** sy'n nodi'r broses a fydd yn cael ei dilyn wrth gyflawni masnachfreinio.

Ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn cwblhau cyfnod 1 y gwaith craffu ar y Bil. Er nad yw wedi cyhoeddi ei adroddiad eto, mae cyllid wedi bod yn fater allweddol yn nhystiolaeth rhanddeiliaid. **Ar 7 Mai** cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet at, y 'swm enfawr' o arian sy'n cael ei fuddsoddi mewn gwasanaethau bysiau ledled Cymru yn barod. Dadleuodd bod modd

cyflawni arbedion gyda'r model sy'n cael ei gynnig.

Mae tystiolaeth rhanddeiliaid yn anghytuno â'r farn hon i raddau helaeth. Roedd Bus Users Cymru a Transport Focus ill dau yn 'synnu' o glywed yr awgrym. **Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:**

> Fodd bynnag, y cwestiwn yn ymwneud â chyllid yw'r un sylfaenol, yn y pen draw. Heb gyllid ychwanegol, ni fydd newid y ddeddfwriaeth yn unig yn cyflawni nod ac amcanion y polisi. Drwy gyflwyno contractau cost gros, bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru dalu unrhyw gostau gwasanaeth ychwanegol nad ydyn nhw'n dod dan y cynnydd mewn refeniw 'farebox'. Po fwyaf y mae'n ceisio ehangu'r rhwydwaith i fodloni anghenion a nodwyd ledled Cymru, y mwyaf y daw'r cysylltiad â'r perygl hwn.

## Trwsio ein ffyrdd

Yn yr un modd â rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, mae ôl-groniad sylweddol o waith cynnal a chadw ar ffyrdd Cymru.

Ym **mhapur craffu ar gyllideb ddrafft Ionawr 2023** Llywodraeth Cymru, amcangyfrifwyd ôl-groniad cynnal a chadw gwerth £1 biliwn ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol y mae'n gyfrifol amdano. Ar 9 Mai, roedd **datganiad i'r wasg gan Lywodraeth Cymru** yn awgrymu bod rhaglen cynnal a chadw'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol, sy'n werth £25 miliwn ac a gyhoeddwyd yn y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2025-26, yn dechrau. Dywedodd:

> Ers 2021 mae Llywodraeth Cymru wedi gwario dros £81m ar waith gosod wyneb newydd ar oddeutu 321km o ffyrdd ar y rhwydwaith cefnffyrdd ledled Cymru. [h.y. y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol] Ar y cyd â'r gwariant a ragwelir ar gyfer 2025-26, mae hyn yn golygu y bydd £118m wedi'i wario erbyn diwedd tymor y Senedd hon i drwsio dros 500km o ffyrdd sy'n cysylltu ein cymunedau.

Amcangyfrifwyd mewn adroddiad heb ei gyhoeddi gan y Gymdeithas Syrfewyr Sirol yn 2020 ar gyflwr ffyrdd awdurdodau lleol bod cyfanswm yr ôl-groniad cynnal a chadw ar ffyrdd lleol yn cyrraedd cyfanswm o £1.7 biliwn ar y pryd.

Yng **Nghyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru** dyrannwyd £6 miliwn yn 2025-26 a £4 miliwn arall yn 2026-27 ar gyfer Menter Benthyca newydd Llywodraeth Leol ar gyfer Rheoli Priffyrdd, i gynorthwyo awdurdodau lleol i fenthyca £120 miliwn ar gyfer cynnal a chadw priffyrdd.

### Grymuso cymunedau lleol i wneud dewisiadau ar 20mya

Yn dilyn ymateb cyhoeddus cryf i gyflwyno terfyn cyflymder diofyn o 20mya ar ffyrdd cyfyngedig, sefydlodd y cyn-Ddirprwy Weinidog dros Newid Hinsawdd **dîm adolygu** i ystyried y canllawiau ar eithriadau 30mya.

**Cyhoeddwyd adroddiad terfynol yr adolygiad** ym mis Mai a c**hanllawiau wedi eu diweddaru** ym mis Gorffennaf 2024.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru wedi sefydlu proses tri cham i awdurdodau lleol adolygu'r dull gweithredu. Dilynwyd 'Rhaglen Wrando Genedlaethol' gan ail gam o fireinio canllawiau a nodi ffyrdd ar gyfer newidiadau cyflymder. Y **trydydd cam, o fis Medi ymlaen**, oedd gwneud newidiadau drwy Orchmynion Rheoleiddio Traffig.

**Yn ystod gwaith craffu ym mis Mehefin 2024** dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai'n 'amhriodol' dyfalu nifer y ffyrdd lleol sy'n symud yn ôl i 30mya gan ei fod yn fater i awdurdodau lleol.

Mae'r broses ymgynghori ac ymgysylltu ynghylch y broses Gorchmynion Rheoleiddio Traffig yn dal i fynd rhagddi, ac nid oes rhestr swyddogol o newidiadau wedi ei choladu. Fodd bynnag, mae **adroddiadau diweddar yn y cyfryngau** wedi nodi'r sefyllfa bresennol ledled Cymru.

Er bod blaenoriaeth y Prif Weinidog yn cyfeirio at rymuso cymunedau, yr awdurdod lleol fel yr awdurdod priffyrdd statudol sy'n gwneud y penderfyniad yn y pen draw. Mae rhai, fel **Cyngor Ceredigion** a **Chyngor Sir Ddinbych**, wedi cadarnhau na fydd newidiadau.

Nodwyd mewn **dadansoddiad gan ymchwil y Senedd** ym mis Hydref 2023, yn dilyn gweithredu'r polisi, mai Sir Ddinbych oedd â'r gyfran isaf o'i rhwydwaith ar 30mya. Dim ond 0.6% o'i ffyrdd oedd yn 30mya, o'i gymharu â chyfartaledd cenedlaethol Cymru o 2.8%.

## 10. Rhyngweithio â phwyllgorau

### Ymateb i argymhellion

Yn ystod sesiwn y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog ar thema "Cymru a'r byd" ar **13 Rhagfyr 2024,** siaradodd y Prif Weinidog am nifer yr argymhellion mae Llywodraeth Cymru yn eu cael gan Bwyllgorau'r Senedd [pwyslais Ymchwil y

Senedd yw'r holl brint trwm]:

> *And you keep on telling me, 'What are you doing about delivery?'* ***Every time you ask me to do something else, you're taking it away from what we said we were going to do****. So, I'm just trying to get you to get the same place as I'm trying to get the officials, which is, 'We said we're going to do that. Don't get distracted. Let's carry on', because otherwise you lot will be hauling me in and saying, 'Why haven't you delivered?' And the answer is, 'Because you've been telling me to do other things.' So. I'm trying to be clear in terms of, '****Stick to your priorities, stick to what we said we're going to do'****, because I can just imagine how much work that would take. [...]*
>
> *So, I'm trying to get really practical, and I'm also trying to get people to say 'no', because we can't do everything.* ***If you want us to deliver, we're going to have to say 'no' more often****.*
>
> *I think it's important for me to tell you this, because you're representing the Chairs of the committees here. I know you do great work on the committees, but when we get 100 recommendations, in future,* ***you're going to get a hell of a lot more noes from us, because every time you ask us to do something, you are distracting us from our core activity****. Now, if there are things that add and help us to deliver the core activity, great. But you'll be getting a lot fewer 'yesses in principle'. I think it's probably more honest for us to say, 'We're not doing it.' But I just want to make that clear today, and I'm making it clear to the commissioners as well—the children's commissioner, the older people's commissioner—****if you come up with 100 priorities for us, we're going to be saying 'no' a lot more often, because it's all about delivery****. And the more you ask us to do, the more you're distracting us from our core purpose. You might not like it, but that's where I'm at, I'm afraid.*

Pan ofynnwyd iddi onid rôl Pwyllgorau yw tynnu sylw'r Llywodraeth at faterion, ychwanegodd y Prif Weinidog

> *But I'd be grateful if you, as Chair, would communicate that also to the rest of the committee Chairs****. I will send a letter, following this, just to make that clear****, because I think it's important to manage expectations but also to stop people wasting their time. Gives us 10 things that we can deliver rather than 40 where we won't deliver. We'll struggle to deliver 40. I'd rather deliver 10 that are really important to you that will help us to deliver what we're talking about. I just think, 'Let's get really practical here.'*

**Gofynnodd y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog** i'r Prif Weinidog anfon copi ato o unrhyw lythyr y bydd yn ei anfon at Fforwm y Cadeiryddion, er na anfonwyd llythyr o'r fath ac na fu unrhyw sôn am y mater yn **Ymateb y Prif Weinidog i'r Pwyllgor hwn** yn ymdrin â materion eraill.

Fodd bynnag, mae **ymateb Llywodraeth Cymru** i adroddiad diweddar y **Pwyllgor**

**Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar Benodiadau Cyhoeddus** yn awgrymu y gallai fod yn mabwysiadu dull diwygiedig o ymateb i argymhellion y Pwyllgor. Er ei fod yn darparu gwybodaeth ynghylch yr argymhellion, **nid yw'r ymateb yn nodi a yw Llywodraeth Cymru yn derbyn ynteu'n gwrthod yr argymhellion.**

## Edrych ymlaen at y Seithfed Senedd (Mai 2026 ymlaen)

Cyhoeddodd **Pwyllgor Senedd y Dyfodol** ei adroddiad ar **fusnes seneddol yn y Seithfed Senedd** ym mis Mai 2025. Gosododd y Pwyllgor amcan iddo'i hun i gefnogi'r Senedd bresennol gyda'i gwaith cynllunio, a phenderfyniadau Pwyllgor Busnes y Seithfed Senedd ar sefydlu pwyllgorau, mewn dwy ffordd:

- darparu opsiynau lefel uchel wedi'u harfarnu ar gyfer trefn gyffredinol busnes seneddol y Senedd sy'n cynnwys dyraniadau amser ar gyfer busnes pwyllgorau; a
- nodi bylchau mewn gwybodaeth am effeithiolrwydd pwyllgorau y gellid eu llenwi cyn y Seithfed Senedd (tymor nesaf y Senedd yn dilyn yr etholiad nesaf ym mis Mai 2026).

Awgrymodd y Pwyllgor y dylid gwneud gwaith pellach ar y materion a ganlyn:

- ystyried y ffordd orau o sefydlu trefniadau i ddeall yr effaith y mae'r cynnydd ym maint y Senedd yn ei chael ar yr amser y mae Aelodau'n ei dreulio'n paratoi ar gyfer gwaith pwyllgor, ac a yw hyn yn arwain at ganlyniadau craffu gwell;
- ailedrych ar **adroddiad yr Athro Diana Stirbu ar Bŵer, Dylanwad ac Effaith Pwyllgorau'r Senedd** i ystyried y gwahanol ganlyniadau a gyflawnir gan bwyllgorau polisi a deddfwriaeth dwy swyddogaeth o'i gymharu â phwyllgorau polisi ar wahân a phwyllgorau Biliau cyhoeddus; a hefyd
- cofnodi a chyfleu diwylliant pwyllgorau'r Senedd yn y Chweched Senedd, gyda'r bwriad o nodi'r normau ac arferion anffurfiol sy'n cael eu gwerthfawrogi gan Aelodau, a'r rhai nad ydynt.

Gallai **Fforwm y Cadeiryddion** wneud llawer o'r gwaith hwn, ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes a Chomisiwn y Senedd. Mae Fforwm y Cadeiryddion wedi lansio **ymgynghoriad tan 12 Medi 2025** i lywio ei adolygiad o effeithiolrwydd pwyllgorau. Bydd yr adolygiad yn edrych ar ddiwylliant pwyllgorau, trefniadaeth busnes pwyllgorau a rhyngweithio rhwng rhanddeiliaid a phwyllgorau, gan gynnwys gweithio hybrid a'r gallu i dystion gyfrannu yn eu dewis iaith.

## 11. Sut i ddilyn neu adolygu cyfarfod y Pwyllgor Craffu ar y Prif Weinidog

Fel y nodir ar ddechrau'r briff hwn, ar **11 Gorffennaf 2025**, mae'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog yn craffu ar waith y Prif Weinidog, Eluned Morgan AS, o ran ei cyflawni ei blaenoriaethau a'r Rhaglen Lywodraethu, wrth i ddiwedd ei blwyddyn gyntaf yn y swydd agosáu. Mae'r briff hwn wedi nodi gwybodaeth gefndir berthnasol a rhai o'r materion allweddol y gallai'r Pwyllgor eu trafod.

Gellir gwylio'r cyfarfod yn fyw, neu ar ôl hynny ar **SeneddTV**. Bydd **trawsgrifiad** ar gael ychydig ddyddiau ar ôl y cyfarfod.